# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR

a gynhaliwyd ar y 6ed Medi 2020
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Ann Tudor, Rowland Jones, Richard Davies, Meiron Davies, Meic Francis, Ada Evans, John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Cynhorwyr Dylan Edwards, Caredig Jones a Dewi Rattray

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Medi gan y Cadeirydd eleni, John Davies. Cyfarfod 1af y Cyngor Cymuned ers y cyfnod clo.

Dachraeodd y cyfarfod am 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Richard Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ann Tudor.

20/016 - MATERION YN CODI

1. Nid oedd unrhyw materion yn codi o cyfnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned.

20/017 - LLYTHYRON

1. Llythr wrth GIG Cymru a posteri yn pwysleisio pwysigrwydd brechiad ffliw. Mi fydd y clerc yn rhoi hyn ar hysbysffwrdd y ganolfan.
2. Cylchgrawn Clerks & Council's direct.

20/018 - ARIANNOL

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Mis Ebrill, Mai, Mehefin, Gorfennaf, Awst a Medi, £133.26 y mis. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng. Richard Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies.

20/019 – CYNLLUNIO

Nid oed unrhyw cais newydd wedi eu derbyn y mis yma.

20/020 - UNRHYW FATER ARALL

1. Mae cwyn wedi eu derbyn wrth aelod o'r gymuned ynglyn a ceir sydd yn cael eu parcio dros nos lawr y 'station yard'. Gofynnwyd i'r Clerc cysylltu a perchnogion y ceir i ofyn iddynt drefnu bod y cerbydau'n cael eu symud
2. Nodwyd fod mae pobl wedi bod yn gadael gwastraff gardd i lawr y llwybr beicio dros y cyfnod cloi. Gall hyn fod oherwydd bod domen y dre wedi bod ar gau, ond ofynnwyd i'r clerc gofyn am arwyddion 'No Fly-tipping' gan y cyngor sir.
3. Gwnaed cais i gysylltu â Systrance Cymru ynghylch cangen wedi torri ar y llwybr beicio. Gallai hyn anafu rhywun pe bai'n cwympo. Bydd y clerc yn anfon e-bost ynglŷn â hyn.
4. Fe godwyd consyrn am y parcio yn pentre llyn, fe fydd y Cyngor Cymued yn cadw llygad ar y sefyllfa.

Orffenwyd y gyfarfod am 08.30pm